

Fframwaith ar gyfer Gwirfoddoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ystyriaethau ac Argymhellion Ehangach

CYD-DESTUN

Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddwyd [Fframwaith ar gyfer Gwirfoddoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#). Ariannwyd y Fframwaith gan Grant Adfer Gwirfoddoli yn sgil y Coronafeirws Llywodraeth Cymru. Cafodd ei ddatblygu gan bartneriaeth o fudiadau; Helplu Cymru (rhan o CGGC), Richard Newton Consulting, Gofal Cymdeithasol Cymru, a Comisiwn Bevan.

Mae'r Fframwaith yn ymateb i'r lefel uwch o ymwybyddiaeth am wirfoddoli a'r effaith gynyddol y mae gwirfoddoli mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol wedi'i chyflawni yn ystod y pandemig sydd wedi dylanwadu ar ganfyddiadau ac adnoddau. Cydnabyddir yn eang bod gwirfoddoli yn elfen hanfodol o ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol wrth i wirfoddolwyr gyfoethogi darpariaeth a chyfrannu at ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Fframwaith wedi'i ddylunio i gefnogi'r gwaith o gadw'r 'enillion' y mae gwirfoddoli wedi'u profi yn ystod y pandemig ac i ddatblygu fframwaith cyffredin i bartneriaid allweddol ei ddefnyddio wrth gynllunio neu wrth gyflenwi gwirfoddoli mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Datblygwyd y Fframwaith drwy gydweithio gydag ystod o fudiadau sy'n rhan o gyflenwi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac sy'n ymgysylltu â gwirfoddolwyr. Mae'r mudiadau hyn yn ymestyn ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat, a'r sector gwirfoddol. Hysbyswyd y Fframwaith gan bobl a oedd yn rhan o raglen o grwpiau ffocws a sgysiau strwythuredig ochr yn ochr â chynnal arolwg ac ymchwil ehangach.

Y FFRAMWAITH

Mae'r Fframwaith llawn ar gael ar dudalen we Helpu Cymru ar wefan CGGC <https://wcva.cymru/cy/projects/helplucymru/> I gynhoi, mae'r Fframwaith yn cydnabod bod mudiadau sy'n cyflenwi gweithgareddau iechyd a gofal cymdeithasol mewn un o bedwar categori –

- Comisiynwyr a Chynllunwyr Gwasanaethau

- Mudiadau Cyflenwi
- Mudiadau wedi'u lleoli yn y Gymuned
- Mudiadau Seilwaith a Mudiadau Aelodaeth

Yna, mae'r Fframwaith yn tywys mudiadau i adfyfrio ar chwe chwestiwn cyffredin ac, os cânt eu hystyried yn llawn, dylent alluogi gwirfoddoli cryf, cynaliadwy o fewn ecoleg iechyd a gofal cymdeithasol, o gynllunio i gyflenwi. Y cwestiynau hyn yw –

- Sut ydyn ni'n cynnwys gwirfoddoli yn rhan o'n dulliau cyflenwi gwasanaeth?
- Sut ydyn ni'n cynllunio ar gyfer gwirfoddoli?
- Pwy y dylen ni weithio gyda nhw i alluogi gwirfoddoli wrth gyflenwi gwasanaethau?
- Sut ydyn ni'n rheoli ac yn datblygu gwirfoddoli?
- Sut ydyn ni'n mesur effaith gwirfoddoli?
- Sut ydyn ni'n siarad am wirfoddoli?

Fel rhan o'r Fframwaith, gwahoddir mudiadau i lenwi hunan-asesiad byr a chynllun gweithredu o ran sut maent yn rheoli ac yn datblygu gwirfoddoli. 5 yw'r marc hunan-asesu uchaf sydd ar gael ar gyfer pob cwestiwn sy'n adlewyrchu bod y mudiad yn meddu ar ymagwedd strategol a hirdymor at wirfoddoli sy'n debygol o fod yn effeithiol ac yn gynaliadwy.

ARGYMHELLION

Wrth ysgrifennu'r Fframwaith, nodwyd bod angen ymagwedd ranbarthol / genedlaethol ar rai meysydd datblygu er mwyn cynyddu i'r uchaf yr effaith a bod y newidiadau y tu allan i reolaeth neu rodd unrhyw fudiad unigol. O ganlyniad i hyn, i gyd-fynd â'r Fframwaith, mae'r ddogfen hon yn cyflwyno nifer o argymhellion sy'n galw am fuddsoddi a gweithredu ar y cyd.

1. **Gwirfoddoli Cyffredin / Symudedd Gwirfoddolwyr** – mae hwn yn gysyniad a drafodir gan nifer o bobl (nid yn yr amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol yn unig). Mae symudedd gwirfoddolwyr yn cynnig buddion sylweddol, yn enwedig, mewn sefyllfa argyfwng. Er mwyn i wirfoddolwyr allu symud rhwng mudiadau, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i symudedd gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cofnodion hyfforddiant cyffredin, rheoliadau rheoli, ac adolygiadau. Mae hyn yn galw am newidiadau i bolisiau a dulliau ymarfer ochr yn ochr â chynllunio ehangach.

2. **Adnoddau hyfforddiant cyffredin** – Yn aml, adroddodd mudiadau a gwirfoddolwyr fod angen ailadrodd hyfforddiant am fod pob mudiad yn cyflenwi ei raglen hyfforddiant ei hun. Mae hyn yn arwain at gostau ar gyfer y mudiad a'r gwirfoddolwr. Er bod angen sicrhau bod sesiwn sefydlu yn benodol i'r lle/mudiad, ceir capasiti i rannu hyfforddiant craidd (h.y. iechyd a diogelwch, diogelu) a dylai hyn gael ei ystyried o fewn cysyniad symudedd gwirfoddolwyr.
3. **Cynllunio ar gyfer Gwirfoddoli** – Er cydnabyddir bod gwirfoddoli yn chwarae rôl hanfodol wrth gyflenwi iechyd a gofal cymdeithasol, mewn achosion prin iawn y caiff ei gynllunio ar sail wasanaeth penodol. Dylai fod yn orfodol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a mudiadau eraill sy'n gyfrifol am gynllunio gwasanaethau, roi ystyriaeth i rôl (a chyllid) gwirfoddoli wrth ddatblygu gwasanaethau. Dylai gwirfoddoli gael ei gydnabod fel adnodd cymunedol allweddol sy'n gallu cyfrannu at ansawdd, hyblygrwydd, a chynaliadwyedd hirdymor wrth ddarparu gwasanaeth. Mae angen i ni symud i sefyllfa lle y caiff gwirfoddoli ei gynllunio ar sail wasanaeth penodol.
4. **Lleihau biwrocratiaeth** – Mae gwirfoddolwyr yn rhoi o'u hamser am ddim. Mae nifer ohonynt yn mynegi rhwystredigaeth o ran gofynion hyfforddiant ac yn adrodd nad ydynt yn cael eu hystyried yn gymesur â'r amser a fuddsoddir gan y gwirfoddolwr/y rôl a gyflawnir. Caiff hyn effaith negyddol ar wirfoddolwyr. Mae angen i fudiadau sy'n cyflenwi gwirfoddoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynllunio ac yn comisiynu gwasanaethau, sicrhau bod unrhyw ofynion a weithredir yn gymesur ac yn berthnasol i'r aseiniad gwirfoddoli.
5. **Mesur effaith** – Mae'n glir bod galw am fesur effaith ansoddol a meintiol yn nhermau gwirfoddoli. Mae'n llawer mwy cyffredin bod dangosyddion allbwn (megis nifer yr oriau gwirfoddoli) yn cael eu casglu yn hytrach nag effeithiau (sy'n gysylltiedig â'r gwahaniaeth y mae gwirfoddoli yn ei wneud). Mae'n well gan nifer o fudiadau cyflenwi ddefnyddio gwybodaeth ansoddol (yn enwedig, astudiaethau achos), ac, yn aml, maent yn canolbwyntio ar y gwahaniaeth a wneir i wirfoddolwr yn hytrach na'r gwahaniaeth a wneir i'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, yn aml, mae Comisiynwyr Gwasanaethau a Chynllunwyr Gwasanaethau yn gofyn am wybodaeth ansoddol, yn ddelfrydol y rhai sy'n cynnig rhyw lefel o

ddadansoddi cost a budd. Gan ystyried bod nifer o rolau gwirfoddolwyr yn cael eu hailadrodd ar draws mudiadau (er enghraifft, cyfaill, eiriolwr, gyrrwr) argymhellir y comisiynir ymagwedd Cymru gyfan i benderfynu gwerth yn nhermau rolau cyffredin. Yna, gall mudiadau eraill yn y sector ddefnyddio hyn i benderfynu dadansoddiad cost a budd yn seiliedig ar eu lefelau gweithgarwch eu hunain yn nhermau lefelau gwirfoddoli ac, yn ddefnyddol, byddai modd trawsosod hyn i leoliadau ehangach megis Presgripsiynu Cymdeithasol. Hefyd, argymhellir bod dulliau gwerthuso hirdymor a gydnabyddir yn genedlaethol yn cael eu mabwysiadu gan bob Comisiynydd Gwasanaethau a Chynlluniwr Gwasanaethau er mwyn gallu datblygu llinell waelod y gellir mesur twf gwasanaethau oddi arni a rhannu cyffredinedd ar draws Cymru.

6. **Datblygu'r naratif o amgylch gwirfoddoli** – Mae sbectrwm eang iawn o weithgarwch ffurfiol ac anffurfiol yn amlwg, ynghyd ag amrywiaeth o ganfyddiad ynghylch ei ystyr, pam ei fod yn cael ei gynnal, y costau ynghlwm ag ef, ei ddiben, pwy sy'n elwa, ac ati. Gall yr iaith a ddefnyddir i esbonio gwirfoddoli wneud synnwyr i un rhanddeiliad ond gall fod yn estron i randdeiliad arall. Mae'n rhaid i bartneriaid cenedlaethol a phartneriaid rhanbarthol fod yn rhan o ffurfio naratif cyffredin sy'n adlewyrchu rhinwedd unigryw a gwerth gwirfoddoli mewn termau sy'n cael eu deall yn dda ac sy'n berthnasol i gynulleidfaedd amrywiol.

Fiona Liddell – Helplu Cymru

Sue Evans – Gofal Cymdeithasol Cymru

Helen Howson – Comisiwn Bevan

Fran Targett – Helplu Cymru/Comisiwn Bevan/CGGC

Richard Newton – Richard Newton Consulting

Awst 2021



helplu
helpforce

Comisiwn
Bevan
Commission



richard
newton
consulting